

Technoleg Cymraeg



Mae technoleg yn yr iaith Gymraeg wedi datblygu dipyn yn ddiweddar, ac erbyn hyn mae modd gwneud llawer o bethau yn y Gymraeg. Dyma rai syniadau ar sut gallwch ddefnyddio'r Gymraeg ar eich cyfrifiadur, ac wrth bori'r we.

Defnyddiwch y Gymraeg ar eich cyfrifiadur:

1. Pecynnau Rhyngwyneb Cymraeg Microsoft – cliciwch ar y meddalwedd rydych yn ei ddefnyddio a gallwch lawrlwytho'r pecyn perthnasol am ddim yma:

- [Windows 7](#)
- [Windows XP](#)
- [Windows Vista](#)
- [Office 2007](#)
- [Office 2003](#)
- [Microsoft SharePoint](#)

2. Rhyngwyneb Ddwyieithog gan y Canolfan Rheoli Iaith – yn ddelfrydol os ydych angen newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn addas i'r gweithle a'r cartref dwyieithog. Gallwch ddefnyddio eich dewis iaith, rhannu'r un peiriant rhwng pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg ac mae sawl tiwtorial ar gael. Mae hefyd yn rhoi tudalennau gwe Cymraeg i chi yn awtomatig pan fyddant ar gael. Ar gael am ddim i [Windows XP](#) a [Windows Vista](#) (neu Windows 7)

3. Eraill – fersiwn dwyieithog o [OpenOffice](#)

4. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan [Meddal](#), neu tanysgrifiwch i flog [Metastwnsh](#), blog sy'n sôn am dechnoleg Cymraeg newydd



Cymhorthion iaith (gramadeg, geiriaduron a chyfieithu)

1. Cysgliad – meddalwedd sy'n cynnwys y ddwy raglen isod. Mae'n ddefnyddiol ar gyfer pob achos lle fyddwch yn ysgrifennu yn Gymraeg

- Cysill – rhaglen sy'n gwirio gramadeg a sillafu Cymraeg
- Cysgeir – geiriadur Cymraeg/Saesneg

Addas ar gyfer PC ac am ddim i'r Mac.

Meddalwedd Cyfieithu

Gallwch gyfieithu testunau drwy ddefnyddio Google Translate. Er bod hyn yn gyfleus, nid yw Google Translate yn rhoi cyfieithiad perffaith fel a fyddai cyfieithydd. Dylech wirio'r cyfieithiad gyda rhywun sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl, er mwyn osgoi camgymeriadau.

Gwybodaeth i Gyrff Cyhoeddus

Os ydych yn gweithio mewn corff cyhoeddus, yna bydd y ddwy ddogfen isod yn eich cynorthwyo i ddefnyddio mwy o feddalwedd Cymraeg yn y gweithle.

[Canllawiau a Safonau ar gyfer Meddalwedd Dwyieithog](#) - Canllaw i swyddogion technoleg ei dilyn wrth ddarparu gwasanaeth

dechnolegol ddwyieithog. Gyda crynodeb i'r rheini sydd llai technolegol hefyd

[Cynllun Achredu](#) - Dogfen sy'n cynorthwyo swyddogion technegol i sicrhau bod systemau meddalwedd yn cydymffurfio â'n Safonau a Chanllawiau ar gyfer Meddalwedd Dwyieithog

Welsh Technology



Technology in the Welsh language has evolved a lot recently, and you can do many things in Welsh. Here are some ideas on how you can use the language on your computer, and browse the web in Welsh.

Use Welsh on your computer:

1. Microsoft Welsh Language Interface Packs - click on the software you use and download the relevant package here for free:

- [Windows 7](#)
- [Windows XP](#)
- [Windows Vista](#)
- [Office 2007](#)
- [Office 2003](#)
- [Microsoft SharePoint](#)

2. The Bilingual Interface Language Control Centre - ideal if you need to switch between Welsh and English, and suitable for the bilingual workplace and home. You can choose your preferred language, share the same machine between people who do not speak Welsh and there are several tutorials available. It also gives you Welsh web pages automatically when available. Available free for [Windows XP](#) and [Windows Vista](#) (or Windows 7)

3. Others - a bilingual version of [OpenOffice](#)

4. For more information, visit [Meddal](#), or subscribe to [Metastwnsh](#) blog, a blog that talks about new Welsh technology



Language Aids (grammar, dictionaries and translation)

1. Cysgliad - software includes two programs below. Useful for whenever you write in Welsh

- Cysill - a program that checks spelling and grammar of Welsh
- Cysgeir - Welsh / English dictionary

Suitable for PC and free for Mac users.

Translation Software

You can translate text using Google Translate. While this is convenient, Google Translate does not provide a perfect translation as a translator. You should check the translation with someone who can speak Welsh fluently, to avoid mistakes.

Information for Public Bodies

If you work in the public sector, then the two documents below will help you to use more Welsh software in the workplace.

[Guidelines and Standards for Bilingual Software](#) – A guide for technology officers to follow when providing bilingual technological services. With summary for those less technological too

[Accreditation Scheme](#) - Document supporting technology officers to ensure that software systems will comply with our Standards and Guidelines for Bilingual Software